



Ein cyf/Our ref MA/JJ/3780/22

20 Rhagfyr 2022

Annwyl Gydweithiwr,

COP15, Archwiliad Manwl i Fioamrywiaeth, Dyletswydd Adran 6 a'r System Gynllunio

Yn ystod Uwchgynhadledd Bioamrywiaeth COP15 y Cenhedloedd Unedig, cytunodd arweinwyr o bob rhan o'r byd ar Fframwaith Bioamrywiaeth Byd-eang i osod y byd ar drywydd tuag at adfer y byd natur erbyn diwedd y degawd. Drwy fynychu COP15, ychwanegodd cynrychiolwyr o Gymru eu llais gan fynnu bod camau trawsnewidiol yn cael eu cymryd ar draws y gymdeithas gyfan, a hynny ar frys. Gwnaethom bwysleisio'r rôl allweddol mae llywodraethau is-genedlaethol, dinasoedd ac awdurdodau lleol yn ei chwarae mewn diogelu a gwella bioamrywiaeth ac o ran cyflawni camau ym meysydd cynllunio, gweithredu a monitro. Rhaid inni ymateb i'r her nawr a sicrhau ein bod yn cyflawni ein hymrwymiaadau er mwyn gwireddu ein huchelgeisiau.

Yn ddiweddar, i gefnogi COP15, gwnaethom gwblhau ein Harchwiliad Manwl i Fioamrywiaeth ein hunain a chytuno ar gyfres o gamau ar y cyd i'w cymryd yng Nghymru er mwyn diogelu rhai o'n cynefinoedd mwyaf gwerthfawr, a'u rheoli'n effeithiol, a chefnogi adfer byd natur: <https://www.llyw.cymru/plymio-dwfn-bioamrywiaeth-argymhellion>

Diben y llythyr hwn yw rhoi sylw i'r rhan hanfodol mae rhaid i'r system gynllunio ei chwarae o ran wynebu'r heriau a bennwyd gan COP15, cyflawni argymhellion yr archwiliad manwl a chyflawni dyletswydd adran 6 yng Nghymru. Yn ogystal, mae'r llythyr yn rhoi hysbysiad o'r newidiadau arfaethedig i bolisiau cynllunio mewn perthynas ag esgor ar fanteision net i fioamrywiaeth a'r lefel o warchodaeth a roddir i Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig, coed a choetiroedd.

Yng Nghymru, mae'r ddyletswydd bioamrywiaeth wedi'i nodi o dan adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus "geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru, ac wrth wneud hynny hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y bo hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol". Wrth gydymffurfio â'r ddyletswydd, rhaid i awdurdodau cyhoeddus ystyried cydnerthedd ecosystemau, a'r agweddau canlynol yn benodol (a elwir yn Fframwaith *DECCA*):

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

- amrywiaeth rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt;
- y cysylltiadau rhwng ecosystemau ac oddi fewn iddynt;
- graddfa ecosystemau;
- cyflwr ecosystemau (gan gynnwys eu strwythur a'r ffordd maent yn gweithredu); a
- gallu ecosystemau i addasu.

Mewn perthynas â'r ddyletswydd, rhaid i awdurdodau cyhoeddus hefyd roi sylw i:

- y rhestr a gyhoeddir o dan adran 7¹;
- yr adroddiad ar gyflwr adnoddau naturiol a gyhoeddir o dan adran 8;
- unrhyw ddatganiad ardal a gyhoeddir o dan adran 11 ar gyfer ardal sy'n cynnwys ardal gyfan neu ran o ardal y mae'r awdurdod yn arfer swyddogaethau mewn perthynas â hi;
- unrhyw ganllawiau a roddir iddynt gan Weinidogion Cymru.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau mewn perthynas â Deddf yr Amgylchedd (Cymru) drwy gyfres o daflenni ffeithiau. Mae'r [daflen ffeithiau Dyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau](#) (a gyhoeddwyd ym mis Awst 2020) yn esbonio dyletswydd adran 6 ac yn rhoi enghreifftiau o sut y gall awdurdodau cyhoeddus gyflawni'r ddyletswydd. Mae [Canllawiau ar adran 6 – y Ddyletswydd Bioamrywiaeth a Chydnerthedd Ecosystemau: Cwestiynau Cyffredin](#) (a adolygwyd ym mis Chwefror 2022) yn ailadrodd y ddyletswydd a'r elfennau hynny y dylid eu hystyried a rhoi sylw iddynt. Yn ogystal, mae'n ei gwneud yn ofynnol defnyddio'r chwe amcan yng [Nghynllun Gweithredu Adfer Natur Cymru](#) i helpu i ddatblygu a llywio camau i gydymffurfio â'r ddyletswydd.

Gwnaed nifer o ddatganiadau Gweinidogol mewn perthynas ag adfer byd natur sy'n nodi'n glir pa mor bwysig yw diogelu byd natur a sicrhau ei fod yn adfer. Gellir gweld y datganiadau hyn yma: [Datganiadau'r Cabinet | LLYW.CYMRU](#)

Ymrwymodd yr archwiliad manwl y targed o gyflawni 30 erbyn 30 – sef diogelu a rheoli 30% o'n tir, ein dyfroedd croyw a'n moroedd mewn ffordd effeithiol a theg erbyn 2030 – a hynny fel ffocws strategol i ystyried ble a sut y gellir cyflymu'r camau a gymerir. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn cynnwys ymateb y system gynllunio i ddyletswydd adran 6 drwy nodi fframwaith ar gyfer awdurdodau cynllunio i gynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau (sef esgor ar fanteision net i fioamrywiaeth).

Er ei fod yn gysyniad tebyg i enillion net, mae manteision net i fioamrywiaeth yn cyfeirio'n benodol at gydnerthedd ecosystemau a pherthynas y safle â'r ecosystemau a'r bioamrywiaeth o'i gwmpas. O'r herwydd, mae'n annog cynigion i gynnal a gwella bioamrywiaeth ac ecosystemau yn rhagweithiol, gyda ffocws ar osgoi, lleihau a lliniaru effeithiau yng nghyd-destun y safle, lle ystyrir mai'r dewis olaf yw cymryd camau lliniaru oddi ar y safle wrth ystyried cydnerthedd ecosystemau, eu hamrywiaeth, eu maint, eu cyflwr, eu cysylltedd a'u haddasrwydd.

Mae'r canlyniadau creu lleoedd a nodir ym Mholisi Cynllunio Cymru (ffigur 5 a pharagraff 2.20) yn ei gwneud yn glir y dylid gwella priodoleddau a nodweddion lleoedd. Mae hyn yn cynnwys ymgorffori'r cyfleoedd a geir drwy wella cydnerthedd ecosystemau a seilwaith gwyrdd ar sail manteision ac atebion ecosystem lluosog ac, yn benodol, sut mae'r materion hyn yn effeithio ar ddewisiadau ynglŷn â lleoedd yn ogystal â chynllunio (adrannau 6.2, 6.4 a pharagraffau 3.36–3.37 a 3.47).

¹ Sylwer nad yw rhestr adran 7 wedi'i chyhoeddi eto, ac mai'r rhestr a luniwyd o dan Ddeddf yr Amgylchedd a Chymunedau Gwledig 2006 sy'n gweithredu fel y rhestr interim.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn nodi'n glir bod "Rhaid i awdurdodau cynllunio geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer eu swyddogaethau. Mae hynny'n golygu na ddylai datblygu arwain at gollediad mawr i gynefinoedd na phoblogaethau o rywogaethau, yn lleol nac yn genedlaethol, a rhaid iddo esgor ar fanteision net i fioamrywiaeth. Wrth wneud, rhaid i awdurdodau cynllunio ystyried a hyrwyddo cydnerthedd ecosystemau ...". (6.4.5)

Yn fwy penodol, mae Polisi Cynllunio yn ei gwneud yn ofynnol:

6.4.4 cymryd pob cam rhesymol i gynnal neu wella bioamrywiaeth a chryfhau cydnerthedd ecosystemau, yn gynnar wrth baratoi cynlluniau datblygu ac wrth gynnig cynigion datblygu, ac y dylid cydbwysu'r rhain gydag anghenion economaidd a chymdeithasol ehangach busnesau a chymunedau;

6.4.6 nodi'r wybodaeth y mae rhaid i awdurdodau cynllunio roi sylw iddi;

6.4.8 mynd ati'n rhagweithiol i ddangos bod y ddyletswydd wedi cael ei chyflawni;

6.4.9 nodi fframwaith DECCA y dylid ei gymhwyso fel rhan o'r gwaith o weithredu'r ddyletswydd. Mae mynd i'r afael â fframwaith DECCA yn rhan annatod o sicrhau y gwneir dewisiadau cydnerth ynglŷn â lleoliadau a chynllunio ar gyfer seilwaith a datblygiadau adeiledig;

6.4.10 cydnabod mai safleoedd dynodedig yw'r ardaloedd pwysicaf ar gyfer cadwraeth natur a'u bod yn gwneud cyfraniad hanfodol at ddiogelu bioamrywiaeth ac, yn 6.4.15, y dylid cydnabod a chynnwys y pwysigrwydd hwn fel rhan o bolisiâu a phenderfyniadau;

6.4.21 defnyddio a dilyn dull fesul cam o gynnal a gwella bioamrywiaeth a meithrin rhwydweithiau ecolegol cydnerth. Dylid dangos y camau hyn fel rhan o unrhyw gynigion datblygu er mwyn sicrhau y gwneir dewisiadau cydnerth ynglŷn â lleoedd a chynllunio.

Mae **Cymru'r Dyfodol** yn darparu rhagor o ymrwymadau mewn perthynas â sicrhau y gwneir dewisiadau cydnerth ynglŷn â lleoedd a chynllunio, gwrthdroi'r dirywiad mewn bioamrywiaeth a chynyddu cydnerthedd ecosystemau:

Mae Polisi 9 yn cadarnhau bod rhwydweithiau ecolegol cydnerth yn hanfodol i adfer natur, a fe'u diffinnir yn "rhwydweithiau o gynefin mewn cyflwr ecolegol da sy'n cysylltu safleoedd a ddiogelir a llecynnau cyfoethog o ran bioamrywiaeth ar draws y dirwedd ehangach, gan esgor ar y manteision gorau posibl ar gyfer bioamrywiaeth a llesiant".

Fel rhan o Bolisi 9, nodir naw adnodd naturiol cenedlaethol mewn ardaloedd lle mae'r materion hyn yn bwysig yn genedlaethol. Mae'r adnoddau naturiol cenedlaethol hyn yn dangos ardaloedd bras lle mae rhwydweithiau ecolegol / seilwaith gwyrdd o bwys cenedlaethol yn bodoli fel sail ar gyfer hyrwyddo camau i ddiogelu a gwella bioamrywiaeth, cryfhau cydnerthedd ecosystemau a chydabod pwysigrwydd seilwaith gwyrdd strategol. Dylid rhoi sylw arbennig i bwysigrwydd yr ardaloedd hyn wrth nodi cynigion datblygu.

Mae Polisi 9 yn nodi bod angen ehangu safleoedd dynodedig a chreu cysylltiadau rhyngddynt er mwyn cynyddu gallu rhywogaethau ac ecosystemau i addasu i bwysau newid yn yr hinsawdd a llygredd. Mae safleoedd a ddiogelir yn hynod bwysig i gadernid hirdymor ein hecosystemau, ac ni ddylid eu hystyried yn ynysoedd o fewn y dirwedd, ond yn hytrach dylent ffurfio nodau rhwydweithiau ecolegol cadarn a swyddogaethol mawr a seilwaith gwyrdd.

Wrth gyflawni dyletswyddau sy'n ymwneud â bioamrywiaeth, dylai awdurdodau cynllunio roi sylw i **Ymagwedd Llywodraeth Cymru at Fanteision Net a Fframwaith DECCA yn y System Cynllunio Daearol**, sef nodyn briffio ar y cyd rhwng Sefydliad Siartredig Rheoli Ecoleg a'r Amgylchedd (CIEEM) a Llywodraeth Cymru sy'n darparu rhagor o wybodaeth ategol am gyflawni manteision net ar gyfer bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, ynghyd â materion allweddol i ecolegwyr a datblygwyr eu hystyried wrth gyflwyno cynigion datblygu. [CIEEM Briefing: Welsh Government's Approach to Net Benefits for Biodiversity and the DECCA Framework | CIEEM](#)

Caiff Polisi Cynllunio Cymru ei ddiwygio fel ei fod yn rhoi mwy o bwyslais ar bwysigrwydd manteision net ar gyfer bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau, gan gynnwys cryfhau mesurau ar gyfer diogelu SoDdGAu, coed a choetiroedd. Caiff ymgynghoriad ar ddiwygio'r polisi ei gynnal yn y flwyddyn newydd. Byddwn yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i ddarparu rhagor o ganllawiau er mwyn hwyluso'r broses o weithredu'r polisi hanfodol hwn.

Yn gywir



Julie James AS/MS
Y Gweinidog Newid Hinsawdd
Minister for Climate Change